

## ❖ YR WY NADOLIG

Gorweddaï Elin Ann yn ei gwely cynnes. Roedd hi tua saith o'r gloch ar fore Rhagfyr 25, ac yn dal heb oleuo, a stwffiodd Elin fys ei throed dde allan o dan y blancedi i weld pa mor gynnes oedd y fflat. 'Gweddol,' meddai wrthi ei hun, gan benderfynu aros yn ei hunfan am o leiaf chwarter awr eto. 'Ella medra' i gael cyntun bach, mae gen i ddigon o amser,' meddai wrthi ei hunan yn uchel. Doedd neb i ateb iddi. Caeodd ei llygaid a meddwl am ddyddiau Nadolig a fu.

Ar ei hamrannau caeëdig gwelai hosan o'r gorffennol. Ei hosan hi yn saith oed. Llyfr sgwennu bychan, dau lyfr darllen lliwgar, ychydig o gnau ac afalau, chwiban, pensiliau lliw, dol degan a chwe cheiniog loyw yn y fan lle dylai bawd ei throed fod. Agorodd Elin Ann ei llygaid ac edrych ar y cloc. Roedd y bys eiliadau yn symud yn araf bore 'ma, nid fel y gwnaeth am y rhelyw o ddyddiau ei hoës. Roedd honnno wedi hedfan heibio a phob Nadolig wedi glynu yn ei gilydd rywsut, pob un yn gymysgedd o danjarins a charolau, stwffin a phapur lapio, stêm pwddinau'n berwi, arogl sigâr a llestri budur yn domennydd ar sinc a gwasanaethau yn y capel. Gallai glywed, fel pe yn y llofft gyda hi, leisiau'r plant yn actio drama'r geni yn y festri fach, a sŵn y band arian yn trampio'r strydoedd oer, hithau'n ateb y drws iddynt ar ganol gwneud cinio. A dyma hi bellach yn saith deg un. Dau fab yn America a merch yn nyrs yng Nghaerdydd. Dim modd gweld yr un ohonynt eleni oherwydd pellter a shifftiau anaddas.

Cofiodd yn ôl am y dyddiau hynny pan fyddai'r tŷ'n orlawn ganddi, popeth eisïau ei wneud ar y funud olaf, pacio anrhegion a stwffio twrci, a'r plant yn fach yn aros am eu hanrhegion ac am Siôn Corn ar ei daith flynyddol. I ble yr aeth yr amser tybed? Trodd Elin Ann ar ei hochr chwith ac ystyried ei chinio. Roedd wedi bod yn dweud ers oesoedd y byddai'n cael cartref gwag un Nadolig, ac mai wŷy wedi'i botsio fyddai ei gwledd bryd hynny. Bellach, doedd y syniad o lonyddwch a thawelwch a diffyg prysurdeb ddim yn apelio ryw lawer. Roedd ganddi hanner dwsin o wyau fferm yn y cwpwrdd, a digon o fara, ond dim llawer o archwaeth.

Meddylïodd yn ôl am Alun. Roedd tair blynedd wedi mynd heibio ers ei angladd, ac eto roedd yno gyda hi o hyd. Gallai glywed ei lais yn sibrdw yn dawel yn ei chlust bob hyn a hyn, a byddai yn ei ateb. Wrth gofio'i jôcs deuai gwên i'w hwyneb. Daliodd ei hun yn gwenu ar y cloc. Pum munud wedi mynd heibio. Waeth iddi godi ddim. Ar hynny aeth y ffôn wrth ochr y gwely.

'Mam, agorwch y drws, wedi anghofio fy allwedd eto!'

'Ble rwyd ti hogyn?'

'Tu allan siŵr iawn.'

'Ond tro d'wetha siaradais i efo ti roeddet ti yn Las Vegas.'

'Contract drosodd Mam. Wedi cael job yng Nghaerdydd. Dechrau Ionawr yr ail. Rŵan, agorwch y drws... mae'r mobile yn dechrau rhewi yn fy llaw i!'

Pan agorodd y drws yn ei chrys nos coch, dyna lle safai Sam, gwên fawr ar ei wyneb.

'Diolch i'r e-bost Mam, rydw i wedi llwyddo cael lle i ni i gael cinio yn y Grand... popeth wedi ei fwcio dros y We. Rwan ta, paned... o ie, mi fydd Sian hefo ni heno ar ôl gorffen ei shifft...' Gafaelodd yn y tegell trydan a'i lenwi'n swnllyd a gwaeddodd i gyfeiriad y llofft yr un pryd, 'O ie, mae Huw yn anfon ei gofion, fydd o drosodd wythnos nesa medda fo. Job newydd yn Llundain yn dechra' yn Chwefror.'

Gwenodd Elin Ann ar y drych yn y stafell wely, rhoi cusan i lun Alun a sibrdw Nadolig Llawen wrtho cyn troi am y gegin a chwilio'r cwpwrdd am wŷy i'w botsio i Sam.